# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU DYDD IAU, 13 IONAWR 2022

**Yn bresennol:** Cynghorydd Berwyn Parry Jones (Cadeirydd)
Cynghorydd Glyn Daniels (Is-Gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Stephen Churchman, Elwyn Edwards, Annwen Hughes, Aled Wyn Jones, Elwyn Jones, Linda Morgan, Edgar Wyn Owen, Gwynfor Owen, Elfed P. Roberts, Angela Russell, Mike Stevens, Gethin Williams ac Owain Williams.

**Swyddogion yn bresennol:**
Llywela Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu), Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu) a Natalie Jones (Swyddog Gwasanaeth Democratiaeth).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 5:**

Y Cynghorydd Dafydd Meurig (Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant), Mannon Trappe (Uwch Reolwr Diogelu, Sicrwydd Ansawdd a Iechyd Meddwl), Daron Owens (Swyddog Gweithredu a Phrosiectau Diogelwch Cymunedol).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 6:**

Steffan Jones (Pennaeth Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol), Peter Simpson (Rheolwr Gwasanaethau Stryd).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 7:**

Steffan Jones (Pennaeth Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol), Meirion Williams (Pennaeth Cynorthwyol Priffyrdd a Bwrdeistrefol).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 8:**
Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Adran Amgylchedd), Bethan Richardson (Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Simon Glyn, Kevin Morris Jones a Dafydd Owen ynghyd â’r Cynghorydd Catrin Wager (Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol).

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y 4ydd o Dachwedd 2021 fel rhai cywir.

## 5. DIWEDDARIAD BLYNYDDOL Y BARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant, gosododd y cefndir a'r cyd-destun, gan nodi bod gan awdurdodau lleol dyletswydd statudol i weithio mewn partneriaeth â'r Heddlu, y Gwasanaeth Iechyd, Gwasanaeth Prawf a'r Gwasanaeth Tân ac Achub, i ymdrin â diogelwch cymunedol. Eglurodd y gwneir asesiad strategol i adnabod blaenoriaethau yn rhanbarthol, 'roedd y cynlluniau lleol i ymdrin â'r blaenoriaethau hyn gerbron y Pwyllgor.

Trosglwyddwyd i'r Swyddog Gweithredu a Phrosiectau Diogelwch Cymunedol. Rhoddwyd trosolwg o'r prif bwyntiau o fewn yr adroddiad ac eglurwyd bod gofyn i'r bartneriaeth adrodd yn ôl i'r Pwyllgor yn flynyddol i ddiweddaru ar waith y bartneriaeth. Aethpwyd ati i nodi'r prif gerrig filltir a gyflawnwyd yn ystod y cyfnod diweddaraf a rhoddwyd trosolwg o'r gwaith oedd ar y gweill.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd y prif bwyntiau canlynol gan aelodau:

- Holwyd ynghylch y 5 cam gweithredu oedd heb eu cyflawni ers bron i ddwy flynedd. Beth oedd y camau nesaf i'w cyflawni?
- Cyfeiriwyd at y gwaith i adnabod adeiladau priodol ar gyfer y tîm camddefnyddio sylweddau ym Mangor a holwyd os oedd modd cael mwy o wybodaeth.
- Holwyd am y cynllun bugeiliaid stryd a pham nad ydynt yn weithredol gan fod y Cyngor yn defnyddio Zoom ers deunaw mis oedd modd iddynt ei ddefnyddio.
- Gofynnwyd a oedd gwaith yn ymwneud a chaethwasiaeth fodern yn rhan o'r bartneriaeth.
- Mynegwyd siom nad oedd cynrychiolwyr eraill o'r bartneriaeth yn bresennol i ateb cwestiynau.
- Holwyd faint o waith mae'r bartneriaeth yn ei wneud i gydweithio i rwystro troseddau megis trais yn y cartref.
- Nododd aelod ei bod yn pryderu am y cynnydd mewn pobl a oedd angen cefnogaeth iechyd meddwl, rhai yn camddefnyddio alcohol a digartrefedd yn enwedig yng Ngwynedd.
- Gofynnwyd a fyddai'n bosib cael cyfarfod â'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd newydd, bu ei ragflaenydd gerbron y Cyngor Llawn yn y gorffennol.
- Dywedwyd bod y pynciau o fewn yr adroddiad yn berthnasol i glybiau ieuenctid a holwyd os oedd y clybiau ieuenctid yn rhan o'r bartneriaeth.
- Cefnogwyd y syniad o wahodd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd i'r Cyngor Llawn fel bod modd i'r holl aelodau ei gyfarfod.
- Holwyd ynghylch trosedd seibr gan fod problemau yn codi oddi ar wefannau cyfryngau cymdeithasol wrth i bobl ddatgelu data wrth ymateb i gwestiynau cyffredinol. Bod angen rhoi pwysau ar gwmnïau cyfryngau cymdeithasol i weithredu pan fo achosion yn cael eu hadrodd.
- Ategwyd at hyn gan nodi ei fod yn broblem ar draws y wlad, roedd angen gweithrediad gan Lywodraeth San Steffan.

Mewn ymateb, nododd y swyddogion:

- O ran y 5 cam gweithredu, oherwydd blaenoriaethau eraill nid oedd modd eu cyflawni. Byddai rhai ohonynt yn cael eu hystyried eto yn y dyfodol.

- Mewn perthynas â'r bugeiliaid stryd, dros y cyfnodau clo nid oedd pobl yn mynd allan wrth i dafarndai fod ar gau, felly doedd dim eu hangen. Yn ogystal ag hyn, wrth i'r cyfyngiadau lacio nid oeddent yn teimlo'n ddiogel bod allan oherwydd covid-19. Ategodd y byddai modd ail ymweld â hyn yn y dyfodol .
- Nododd y byddai'r wybodaeth ynghylch adeiladau priodol i'r tîm camddefnyddio sylweddau yn cael ei ddarparu i'r aelod wedi'r Pwyllgor hwn.
- Nid oedd achosion yng Ngwynedd o gaethwasiaeth fodern hyd yn hyn, ond yn ymwybodol ei fod yn rhywbeth all godi mewn unrhyw ardal.
- Nododd bod ymgynghoriad ar strategaeth trais yn y cartref a thrais rhywiol yn agored tan 1af Chwefror. O ran y maes addysg, bydd materion yn ymwneud â pherthynas iach yn dod yn rhan o'r cwricwlwm newydd i Gymru.
- Bod asiantaethau wedi bod yn cynnig cefnogaeth rithiol a gwaith cymorth o ran camddefnyddio alcohol yn ystod y pandemig.
- Ei fod yn bosib i'r Gwasanaeth Ieuenctid fwydo i mewn i waith y bartneriaeth.
- Bod trosedd seibr yn fater 'roedd yr Heddlu yn cymryd o ddifrif ac roeddent yn cynnal hyfforddiant i bobl hŷn i godi ymwybyddiaeth. Am godi'r mater yng nghyfarfod y Bartneriaeth gan ofyn beth oedd yr ymateb a derbynnir gan gwmnïau cyfryngau cymdeithasol pan yn adrodd.

**PENDERFYNWYD**:

1. **Derbyn cynnwys yr adroddiad a'r dogfennau atodol gan nodi'r sylwadau, a chefnogi blaenoriaethau a chyfeiriad y gwaith i'r dyfodol.**
2. **Cysylltu gyda Chadeirydd y Cyngor i nodi dymuniad y Pwyllgor i estyn gwahoddiad i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd i gyfarfod o'r Cyngor Llawn.**
3. **Gofyn i'r bartneriaeth rhoi ystyriaeth i aelodau eraill y bartneriaeth fod yn bresennol yng nghyfarfod Trosedd ac Anrhefn y Pwyllgor Craffu Cymunedau.**

## 6. GLENDID STRYD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol a thywyswyd yr aelodau drwy'r prif faterion.

Nodwyd bod gan y Cyngor ddyletswydd statudol i sicrhau nad oes sbwriel ar briffyrdd a mannau cyhoeddus eraill.. 'Roedd yn wasanaeth gweladwy a phwysig yn enwedig yn ystod y cyfnod pandemig. Eglurwyd bod y Gwasanaethau Stryd yn ymdrin â bob safle cyhoeddus a pob ffordd oedd wedi ei fabwysiadu a reolir gan y Cyngor

Amlygwyd bod ardaloedd wedi eu rhannu yn barthau yn ôl eu defnydd. Eglurwyd bod glendid ardal yn cael ei asesu trwy gymharu gyda safon, roedd amrediad safon o Gradd A i D. Ymhelaethwyd y caniateir cyfnod amser gwahanol i lanhau'r ardaloedd a'u dychwelyd i'r safon briodol..

Nodwyd bod yr Adran wedi wynebu toriadau yn y gorffennol, a phwysau ychwanegol yn sgil cynnydd yn nhwristiaeth. Manylwyd ar weledigaeth y Gwasanaeth gan ofyn i'r Pwyllgor am eu sylwadau ar y weledigaeth.

Ategodd y Rheolwr Gwasanaethau Stryd sylwadau'r Pennaeth gyda'r pwyntiau canlynol:

- Cyfeiriodd at y cod ymarfer a nododd oherwydd sefyllfa Covid ni fyddai un newydd yn cael ei gyflwyno o fewn y flwyddyn. Nododd bod deddfwriaeth yn Lloegr i gosbi perchnogion ceir sy'n gollwng sbwriel, nid oedd hyn ar gael yng Nghymru ond yn cael ei hystyried.
- Nododd fel rhan o'r peilot, bod 4 bin clyfar wedi eu harchebu a fyddai'n gweithio drwy bŵer solar. Byddai'r bin yn gwasgu'r sbwriel nifer o weithiau cyn anfon signal i hysbysu'r swyddogion bod angen ei wagio.

Yn ystod y drafodaeth, cafwyd y prif sylwadau canlynol gan aelodau:

- Croesawyd y weledigaeth a holwyd am finiau ailgylchu ar strydoedd. Nododd bod pobl yn rhoi sbwriel yn y bin anghywir ar ddamwain neu yn ddiofal a gofynnwyd am fwy o wybodaeth am y broses casglu a'r gofynion staffio i wahanu a sortio'r deunydd.
- Holwyd ynghylch grwpiau codi sbwriel yn wirfoddol gan nodi bod digwyddiadau cyson ar draws y wlad ac yng Ngwynedd a'i fod yn syniad da bod y cyhoedd yn rhan o'r broses.
- Holwyd beth yw'r drefn efo ysgubo ffyrdd ag a yw hyn yn parhau mewn llefydd gwledig. Ategodd bod cadw ffyrdd yn lan yn ddull o osgoi llifogydd.
- Codwyd y mater o chwyn ar balmentydd yn enwedig rhai sy'n cael eu defnyddio yn llai aml.
- Cyfeiriwyd at y Tîm Cymunedau Glan a Thaclus a'r angen i wybyddu aelodau o waith y tîm.
- Derbynnir cwynion o ran arwyddion yn wyrdd a gydag ymgyrchoedd codi ysbwriel yn ail-gychwyn roedd bagiau duon yn cael eu rhoi tu ôl i finiau stryd. A ellir ystyried ysgubo'r llwybrau beicio yn dilyn torri tyfiant? Holwyd am drefniadau glanhau gwm cnoi.
- Yn falch bod addysgu plant wedi ei gynnwys fel un o'r camau nesaf ond gall oedolion greu mwy o broblem e.e. peidio â chodi baw cŵn. Wedi gweld cyd-gynghorwyr yn arddangos cynhwysydd siâp asgwrn i ddal bagiau baw cŵn ar y cyfryngau cymdeithasol. Oedd rhai ar gael i aelodau eraill.
- Bod staff yn ymwybodol o fannau problemus, dylid parhau i wagio biniau yn rheolaidd yn hytrach na defnyddio biniau clyfar.
- Yr angen i ail-edrych o ran rôl gwirfoddolwyr a chynghorwyr, nid oedd digon o gosbau yn cael eu rhoi yn unol â rheoliadau cadw cŵn ar dennyn a chodi baw ci.
- Pam fod y Cyngor yn rhoi bagiau baw cŵn i berchnogion gan mai eu cyfrifoldeb hwy ydyw?
- Ble fyddai'r biniau clyfar wedi eu lleoli fel rhan o'r peilot?
- Pryd fyddai'r ymgyrch codi ymwybyddiaeth o ran codi baw cŵn yn cychwyn?
- Bod angen cadw safleoedd biniau cymunedol yn daclus a'r angen i wneud *deep clean* yng nghanol trefi.

ıateb, nododd y Pennaeth a'r Rheolwr Gwasanaethau Stryd y canlynol:

- Mewn perthynas â'r biniau ailgylchu ar y stryd, bod 3 neu 4 rhan i'r bin ar gyfer deunyddiau gwahanol. Gwelir ychydig o lygru deunydd yn y biniau ailgylchu. Parheir i gyfathrebu'r neges o ran ail-gylchu.
- Bod angen cyd-gordio ymgyrchoedd codi sbwriel grwpiau gwirfoddol gan roi ystyriaeth i fynediad at gyfarpar a lleoliad priodol i adael y sbwriel ar gyfer ei gasglu.
- Bod ysgubo ffyrdd mewn ardaloedd gwledig yn digwydd o leiaf unwaith y flwyddyn, gydag ysgubo mewn pentrefi yn digwydd o leiaf un waith y mis. Tîm arall oedd yn chwistrellu chwyn ar balmentydd a hynny o leiaf un waith y flwyddyn.
- Byddai nodyn yn cael ei anfon i holl aelodau'r Cyngor gyda gwybodaeth am y Tîm Cymunedau Glan a Thaclus.
- Bod y tîm yn glanhau arwyddion. Gadael iddynt wybod am leoliad y bagiau duon tu allan i'r cyfarfod. Rhoddir ystyriaeth i ysgubo llwybrau beicio yn dilyn torri tyfiant fel

rhan o'r adolygiad.

- Ei fod yn anodd glanhau gwm cnoi, prynwyd peiriant newydd drwy arian grant i dreialu ei ddefnydd. Gobeithir y byddai'r gwaith yma yn dod yn rhan o waith y Tîm Cymunedau Glan a Thaclus.
- Bod addysgu yn hanfodol a chynhelir gweithgaredd penodol.
- Gallai aelodau gysylltu â'r Rheolwr Gwasanaethau Stryd i wneud cais am y cynhwysydd siâp asgwrn a byddai'n trefnu i'w rhoi i'r warden yn yr ardal.
- Bod pwysau wedi bod ar y staff dros y ddwy flynedd diwethaf, edrychir ar drefniadau gwagio biniau stryd fel rhan o'r adolygiad. Credir bod lle i ddefnyddio biniau clyfar yn enwedig mewn llefydd pell.
- Bod angen edrych yn fwy manwl ar y sefyllfa baw cŵn, rhoddir ystyriaeth i gyflogi mwy o wardeiniaid gorfodaeth.
- Yn dilyn dyfodiad deddfwriaeth newydd nid oedd yn bosib i wirfoddolwyr orfodi ond edrychir ar wirfoddolwyr yn dosbarthu pecynnau a chynghori perchnogion cŵn. Hapus i gael trafodaeth bellach.
- Rhoddir pecynnau fel tacteg marchnata, sampl am ddim ond ni pharheir i'w rhoi.
- Bwriedir rhoi'r biniau clyfar mewn lleoliadau prysur trefol.
- Bod codi ymwybyddiaeth yn rhywbeth parhaus. Fel rhan o Caru Cymru, roedd ymgyrch cenedlaethol 'Gadael olion pawennau yn unig' yn cael ei hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol. Bod arwyddion newydd yn cael eu treialu gydag arwyddion bychan a oedd yn disgleirio yn y tywyllwch wedi eu gosod yn Nolgellau. Pe byddai aelodau eisiau treialu arwyddion newydd, dylent gysylltu â'r Rheolwr Gwasanaethau Stryd.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.**

## 7. TORRI GWAIR A CHYNNAL TIROEDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol, gosododd y cefndir a'r cyd-destun. Nododd er mwyn cyflawni dyletswyddau bod angen paratoi a mabwysiadu polisi torri gwair ar gyfer ymylon ffyrdd, oedd yn ystyried anghenion defnyddwyr y ffordd, yn ogystal ag anghenion bywyd gwyllt. Cyfeiriodd at yr adolygiad o drefniadau torri gwair a'r gyfundrefn cynnal arfaethedig a oedd gerbron er trafodaeth.

Manylodd Pennaeth Cynorthwyol Priffyrdd a Bwrdeistrefol ar rai o'r camau a oedd yn cael eu cymryd. Nododd bod yr Adran yn cydweithio gyda'r Uwch Swyddog Bioamrywiaeth ac yn adnabod mannau penodol o ran casglu'r gwair yn dilyn ei dorri. Cyfeiriodd at brosiect 'ymylon gwell' gyda'r elusen Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol, a oedd i'w gynnal ym mlwyddyn ariannol 2022-23. Nododd bod *Plantlife* wedi cyhoeddi dogfen yng nghyswllt ymylon ffyrdd cefn gwlad a oedd wedi derbyn sêl bendith Llywodraeth Cymru.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:

- Bod rhai yn gefnogol i newid trefniadau torri gwair i wella bioamrywiaeth, ond doedd eraill ddim yn gefnogol.
- Yn derbyn cwynion o ran coed yn ymwthio i'r ffyrdd, a ellir addasu uchder torri mewn rhai achosion? Bod angen cael balans rhwng hybu bioamrywiaeth a diogelwch ffyrdd. Efallai byddai'n opsiwn i dorri un ochr mewn rhai mannau. Yn gefnogol i doriad llawn diwedd Hydref i ddelio gyda gordyfiant prysgwydd ond o'r farn bod torri gwair ym mis Awst mewn ardaloedd gwledig yn rhy hwyr.
- Bod angen torri mewn ardaloedd 30mya. Roedd ardaloedd yn fwy taclus pan gesglir y gwair a dorrwyd. Beth oedd yr ystyriaethau wrth ddod i

gasgliad o ran casglu'r gwair yn dilyn ei dorri? Byddai toriad ym mis Awst yn rhy hwyr yn ei ardal – fyddai'n bosib cael rota o ran pa ardaloedd oedd yn cael toriad gyntaf?

- Yn sicr roedd lonydd cul angen sylw. Ei fod yn bwysig i fioamrywiaeth bod rhai mannau yn cael eu gadael. Dylai'r Cyngor dynnu lluniau pan fo blodau gwyllt yn eu hanterth a'u defnyddio i hyrwyddo.
- Bod sbwriel yn dod i'r amlwg yn dilyn torri gwair a'r angen i gyd-gordio trefniadau. Wedi derbyn cwynion o ran drain yn crafu ceir ar lonydd cul a thractorau a ddefnyddir i dorri yn rhy lydan ac yn tynnu waliau i lawr. Dylid ystyried defnyddio peiriannau torri clawdd mewn rhai ardaloedd cul.
- Bod agweddau yn newid o ran torri gwair gyda mwy o ystyriaeth i fioamrywiaeth. Yn gefnogol i beidio â thorri os oedd yn dderbyniol o safbwynt diogelwch.

Mewn ymateb i'r sylwadau uchod, nododd y swyddogion:

- Bod symudiad i wneud toriad llawn yn hwyrach yn y flwyddyn. Angen adnabod ardaloedd penodol i hybu bioamrywiaeth gan gynnwys plannu. Edrychir ar y defnydd o chwistrellwr i ladd chwyn gan gynnwys rhoi mwy o bwyslais ar ddefnyddio ysgubwr yn lle.
- Bod gwrychoedd yn cael eu torri i fyny i uchder o 1 medr, cyfrifoldeb y perchennog oedd y tyfiant uwchlaw hyn. Rhoddir ystyriaeth i ardaloedd penodol fel rhan o'r adolygiad.
- Rhoddir sylw i sylwadau'r aelod. O ran casglu'r holl wair yn dilyn ei dorri, bod angen rhoi ystyriaeth i adnoddau a'r amser ynghlwm gan y byddai yn sicr yn golygu cost i'r Cyngor.
- Diolch i'r Pwyllgor am y sylwadau, fe roddir sylw i'r materion a godwyd a dychwelir i'r Pwyllgor i adrodd ar yr hyn a gyflawnwyd. Nodwyd bod yr Adran yn ymdrin â gwaith Clwyf yr Onnen, a allai fod yn fater i'r Pwyllgor ei ystyried yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.**

## 8. BWRDD NEWID HINSAWDD

Nodwyd yn dilyn y drafodaeth yng nghyswllt aelodaeth y Bwrdd Newid Hinsawdd yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 23 Medi 2021, o dan yr eitem 'Newid Hinsawdd', derbyniwyd cais i ethol aelod i gynrychioli'r Pwyllgor ar y Bwrdd.

Eglurwyd bod y Bwrdd wedi gwahodd y Cynghorydd Angela Russell fel y Pencampwr Bioamrywiaeth, ac yn estyn gwahoddiad i'r Pwyllgor enwebu un aelod arall oedd gyda diddordeb yn y maes ac yn awyddus i gyfrannu at y gwaith.

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Mike Stevens i gynrychioli'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar y Bwrdd Newid Hinsawdd.**

Ar derfyn y cyfarfod, cymerodd y Cadeirydd y cyfle i ddiolch i Natalie Lloyd Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth) am ei gwaith. Dymunwyd yn dda iddi ar gyfer y dyfodol.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.40 y.b. a daeth i ben am 1.15 y.h.

**CADEIRYDD**